**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT: Rhaglen Cymunedau i Waith / *Communities for Work Programme*

AELOD CABINET/CABINET MEMBER Cyng / Coun Mandy Williams-Davies

## PENDERFYNIAD/DECISION

Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i dderbyn y Cytundeb Ymddiried Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol ar gyfer darparu Rhaglen Cymunedau i Waith yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, Gwynedd.

*Authorise the Head of Economy and Community to accept the Service of General Economic Interest Act of Entrustment to deliver the Communities for Work Programme within Communities First areas in Gwynedd.*

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda'r Adran Waith a Phensiynau wedi derbyn arian o Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) ar gyfer darparu'r Rhaglen Cymunedau i Waith i drigolion clystyrau Cymunedau'n Gyntaf drwy Gymru.

Amcanion y rhaglen yw :-

- Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed na ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth nac Hyfforddiant (NACH / NEET).
- Cynyddu cyflogaeth ymysg unigolion 25oed+ sy'n economaidd anweithgar neu sy'n ddi-waith tymor hir, ac sy'n wynebu rhwystrau lluosog rhag gweithio.

Bydd y rhaglen yn cyflogi Cynghorwyr Gwaith a Mentoriaid i weithio un i un gydag unigolion NACH, anweithgar, neu ddi-waith. Bydd y cynghorwyr a'r mentoriaid yn darparu cefnogaeth ddwys i'r unigolion ac yn adnabod llwybr iddynt symud yn agosach i fyd gwaith, neu i waith.

Caiff y Cynghorwyr Gwaith eu cyflogi a'u lleoli gyda'r Canolfannau Byd Gwaith o dan reolaeth yr Adran Waith a Phensiynau.

Caiff y Mentoriaid eu cyflogi gan y sefydliadau hynny sy'n Gyrff Arweiniol i Raglen Cymunedau'n Gyntaf. Yng Ngwynedd y Cyngor yw'r Corff Arweiniol ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf.

Mae'r Llywodraeth yn rhyddhau cytundeb "Ymddiried Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol" i bob corff arweiniol ar gyfer darparu rhaglen yn lleol. Drwy'r cytundeb hwn mae disgwyl i'r Cyngor gyflogi 4 swydd (fel y'i diffinnir gan y Llywodraeth) a rheoli'r cynllun a'i pherfformiad yn lleol. Mae'r cytundeb yn nodi targedau perfformiad a chyllideb ar gyfer y cynllun yng Ngwynedd. Bydd y Llywodraeth yn ad-dalu costau i'r Cyngor ar gyfer gweithredu'r rhaglen. Bydd y rhaglen yng Ngwynedd yn derbyn £301,928.42 dros gyfnod o 2 flynedd (1af o Ebrill 2016 - 31 o Fawrth 2018).

Bydd y Rhaglen yn weithredol yng nghymunedau Peblig, Marchog, Cadnant a Thalysarn yn unig dros y cyfnod hwn. Bwriedir rheoli'r rhaglen ochr yn ochr â Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf oddi fewn i'r Gwasanaeth Adfywio Cymunedol.

*The Welsh Government and the Department for Work and Pensions have jointly been awarded funds from the European Social Fund to deliver the Communities For Work Programme to residents across Communities First areas in Wales.*

*The programme aims to:-*

- *Decrease the number of 16-24 year old young people who are not in education, employment or training (NEET).*
- *Increase employment amongst 25 year olds+ who are currently economically inactive or long term unemployed and face multiple barriers to work.*

*The programme will employ Job Advisors and Mentors to work with individuals who are NEET, inactive or unemployed. The advisors and mentors will provide intensive support for individuals to overcome barriers to work, and to agree a pathway back to work, or closer to work.*

*The advisors will be employed and located within the Job Centre under the management of the Department of Work and Pensions.*

*The mentors will be employed and located with the accountable body for the Communities First Programme. Gwynedd Council is the accountable body for Communities First in Gwynedd.*

*The Welsh Government had issued an Act of Entrustment to every Communities First accountable body to deliver Communities for Work locally. On accepting this act the Council will be expected to employ 4 members of staff (as defined by the Government) and take on the management and performance of the programme. The act states the anticipated performance targets for the programme and a budget. The Government will repay costs to the Council for delivering the programme. The programme in Gwynedd will be in receipt of £301,982.42 over a 2 year period (1st April 2016 - 31st of March 2018)*

*The programme will be operational in Peblig, Marchog, Cadnant and Talysarn over this period. The programme will be located within the Communities First team with the Regeneration Service.*

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Mae'r Rhaglen Cymunedau i Waith wedi ei adnabod fel un o'r ymyraethau sy'n rhan o Brosiect Rhwystrau i Waith a gomisiynwyd gan y Panel Economi ac Amddifadedd drwy'r Cynllun Strategol fel blaenoriaeth ar gyfer 2016-17.

Mae'r Rhaglen Cymunedau i Waith yn rhan o ymyraethau trechu tlodi y Llywodraeth ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig yn y sir.

Mae Asesiad Risg wedi ei gwblhau ar gyfer gweithredu'r cynllun. Mae'r risgiau yn risgiau arferol i dderbyn arian grant allanol, megis cyflawni gofynion monitro, archwilio, rheolaeth ariannol, rheolaeth perfformiad, a chyflogi staff. Mae'r asesiad risg wedi adnabod mesurau lliniaru ar gyfer y risgiau.

*The Communities for Work Programme is part of the interventions identified under the Barriers to Work Project, commissioned by the Poverty and Economy Panel, via the Council's Strategic Plan for 2016-17.*

*The Communities for Work Programme forms part of the Welsh Government's tackling poverty agenda targeting the most deprived areas in Gwynedd.*

*A risk assessment for the programme has been produced. The risks identified are those usually associated with accepting external funding, which are around achieveing targets, employing staff and meeting monitoring, auditing, reporting and financial control requirements. Mitigating actions have been identified for the risks.*

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

### 1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

"Dim i'w ychwanegu." / "Nothing to add"

### 2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb". / "Nothing to add regarding propriety."

### 3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

"Deallaf fod y cynnig yma cyfwerth â grant 100%, felly rwy'n cefnogi penderfyniad yr Aelod Cabinet i'w dderbyn." / "I understand that this offer is equivalent to a 100% grant, and therefore support its acceptance by the Cabinet Member".

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Cynghorydd Glyn Thomas (Cadnant)
“Credaf fod hwn yn gyfeiriad positif gan Lywodraeth Cymru”
*“I think that this is a positive move by the Welsh Government”*

Ni dderbyniwyd sylw gan yr aelodau lleol perthnasol eraill.
*No comments were received by the other relevant local members.*

| LLOFNOD /SIGNED | DYDDIAD/DATE |
| --- | --- |
| | 14.3.15 |